



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Andrew Cottom
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Mansion House
Bronllys
Aberhonddu
Powys
LD3 0LS

Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
08442 640670
gofyn@olderpeoplewales.com

12 Gorffennaf 2011

Annwyl Mr Cottom,

**Adolygiad Ysbytai Gofal gydag Urddas: adborth a Hysbysiad
Ysgrifenedig yn gofyn am ragor o wybodaeth erbyn 15 Awst 2011**

Hoffwn ddiolch i chi am ymateb yn brydlon i'm Hadolygiad 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru'. Rwy'n gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech sydd wedi'u neilltuo i lunio ymateb i'r argymhellion yn Adroddiad yr Adolygiad. Calondid i mi oedd yr ymatebion addawol a gawsom ac rwy'n teimlo eu bod yn dangos gwir awydd i wella profiad pobl hŷn yn yr ysbyty.

Pan anfonais gopiâu o'r Adroddiad ar yr Adolygiad, gofynnais i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ymateb i'r argymhellion, i amlinellu sut y bydden nhw'n cydymffurfio â nhw. Os byddai'r Bwrdd Iechyd yn penderfynu peidio â chymryd camau mewn ymateb i'r argymhellion, roeddwn yn gofyn am esboniad dros beidio â chymryd camau. Dywedais fy mod yn

disgwyl cael ymateb i Argymhelliad 5 ar y cyd â'r awdurdodau lleol yn eich ardal.

Ers i ymateb Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ddod i law, mae fy nhîm a mi wedi asesu'r ymateb yn drylwyr. Rydyn ni wedi cael cymorth hefyd gan banel o gynghorwyr y mae eu henwau wedi'u rhestru ar ein gwefan. Mae Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007 yn datgan bod rhaid i'r wybodaeth a roddir imi gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys fod yn ddigon imi benderfynu a gydymffurfir â'm hargymhellion i neu beidio, neu roi digon o esboniad pam na chydymffurfir ag argymhelliad.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn caniatáu imi anfon Hysbysiad Ysgrifenedig i ofyn am ragor o wybodaeth gan y cyrff hynny sydd heb fy narbwylllo eto y bydd fy argymhellion yn cael eu dilyn. Rwy'n croesawu'r ffaith bod Powys yn cydnabod y materion ac rwy'n croesawu hefyd y gwaith sydd wedi'i wneud i roi sylw i'r materion hyn. Mae llawer o ymatebion da wedi dod i law, ond heb i'r un Bwrdd Iechyd roi digon o wybodaeth i'm sicrhau'n llawn y bydd buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hybu mewn ysbytai yng Nghymru. Felly, yn unol â'r Rheoliadau, mae'r llythyr hwn yn Hysbysiad Ysgrifenedig i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys i ofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r argymhellion a amlinellir yn y tabl isod. Byddwch cystal â rhoi'r wybodaeth hon erbyn **dydd Llun 15 Awst am 5pm fan bellaf**.

Mae'n ofynnol imi gadw cofrestr, sydd ar gael i'r cyhoedd, yn cynnwys manylion yr argymhellion a chanlyniad unrhyw gamau pellach yr ydw i wedi'u cymryd, megis rhoi Hysbysiad Ysgrifenedig i Fwrdd Iechyd penodol. Bydd y gofrestr ar ein gwefan ynghyd â'r ymateb a anfonwyd gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys a'r llythyr hwn. Bydd y gofrestr ar gael ar bapur hefyd os gwneir cais amdano.

Pan fyddaf yn fodlon bod gen i'r cyfan o'r wybodaeth angenrheidiol, bydd fy nhîm a mi'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod yr argymhellion yn dod yn realiti ymarferol sydd o les i bobl hŷn yng Nghymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rhan hon o'r broses, mae croeso ichi gysylltu ag Anna Buchanan ar 02920 445034 neu anna.buchanan@olderpeoplewales.com.

Yn gywir,



Ruth Marks
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Yr ymatebion y gofynnir am ragor o wybodaeth yn eu cylch

Yr argymhelliad	Yr adborth a'r wybodaeth y gofynnir amdani
	Ewch yn ôl at Argymhellion yr Adroddiad a thestun llawn yr Adroddiad i gael arweiniad ar eich ymateb
Argymhelliad 3 Anghenion ymataliaeth	Rhowch ragor o wybodaeth i ymdrin â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none">• Ein pryderon nad yw Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi dangos yn ei ymateb yr aiff ati ar unwaith i wrthod goddef arferion annerbyniol.
Argymhelliad 4 Preifatrwydd gwybodaeth	Rhowch ragor o wybodaeth i wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none">• Ein darbwylllo mai cynnal pob

	<p>sgwrs sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol (meddygol ac anfeddygol) yn breifat fydd y dewis diofyn</p>
<p>Argymhelliad 8</p> <p>Amgylchedd y ward</p>	<p>Rhowch ragor o wybodaeth i ymdrin â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Anghenion y rhai sydd â dementia a cholled synhwyrau, gan ymdrin â hyn yn fanylach • Yr angen i wneud newidiadau ym mhob ward y gall pobl hŷn fod yn bresennol ynddyn nhw • Yr angen i ymgysylltu â chleifion, teuluoedd a gofalwyr yn uniongyrchol ac nid dim ond â staff, Cynghorau lechyd Cymuned a 'grwpiau cynrychiolwyr'.
<p>Argymhelliad 9</p> <p>Cyfathrebu</p>	<p>Rhowch ragor o wybodaeth i ymdrin â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu eiriolaeth • Anghenion y rhai sydd â cholled synhwyrau
<p>Argymhelliad 10</p> <p>Profiad cleifion, teuluoedd a gofalwyr</p>	<p>Rhowch ragor o wybodaeth i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ein darbwylllo bod y Bwrdd wedi ymrwymo i gysylltu'n uniongyrchol â chleifion, teuluoedd a gofalwyr

Argymhelliad 12

Gwybodaeth a sgiliau

Rhowch ragor o wybodaeth i ymdrin â'r canlynol:

- Pa grwpiau staff y bydd yn ofynnol iddyn nhw ymgymryd â hyfforddiant (nid dim ond nyrsys) ac ym mha feysydd heblaw ymwybyddiaeth dementia
- Pa grwpiau staff y bydd yn ofynnol iddyn nhw ymgymryd â hyfforddiant gorfodol